

Sesiwn 1:

Pam Gweddïo?

Canllaw Astudio Grwpiau Bach

1. Cyflwynwch y sesiwn 5 munud

Adnod allweddol - “Arglwydd, dysg ni i weddïo” - Luc 11:1

- Yn y sesiwn gyntaf hon o’r Cwrs Gweddi, byddwn yn dadbacio pwysigrwydd gweddi a’r gwahanol bynciau a drafodir ar draws y cwrs.
- Dechreuwch y sesiwn trwy agor mewn gweddi.

2. Gwyliwch y Fideo 20 munud

Darnau o'r Beibl Luc 11:1-4, Mathew 6:6-8, Rhufeiniaid 8:26-28

Pwyntiau crynhoi

- Gallwn ofyn i Iesu ein helpu i ddysgu sut i weddïo.
- Mae gweddïo fel blwch offer - mae llawer o wahanol ffyrdd o weddïo.
- Cadwch hi'n syml. Cadwch hi'n real. Daliwch ati.

3. Cwestiynau Trafod 20 munud

C. Beth oedd fwyaf defnyddiol neu fwyaf heriol yn y fideo i chi?

C. Beth sy'n anodd i chwi mewn gweddi? Beth sy'n hawdd i chi?
Pam ydych chi'n meddwl gall gweddi deimlo'n galed yn aml?

Dywed Pete mai'r cyngor gorau yw "Cadw pethau'n syml, ei gadw'n real a'i gadw i fyny."

Cadwch ef yn syml: **"mae eich bywyd gweddi ar ei orau ar ei symlaf"**

C. Am beth yr ydych yn siarad yn bennaf â Duw ?

Cadwch bethau'n real: "Peidiwch â chwarae rôl gerbron Duw"

C. A ydych yn teimlo fod yn rhaid i chwi ymddwyn yn neilltuol gerbron Duw wrth weddio ? Pam neu pam lai?

Daliwch ati: "Peidiwch â rhoi'r gorau i weddio'n rhy fuan"

C. A ydych yn ei chael yn her i ddyfalbarhau mewn gweddi ? Sut gallwn ni gael ein hannog i ddal ati?

4. Gweithredu 15 munud

Rhannwch yn grwpiau bach, a rhannwch un ffordd yr hoffech chi dyfu mewn gweddi a'ch perthynas â Duw dros y cwrs.

Nodyn i'r arweinydd

Efallai yr hoffech chi hefyd ysgrifennu eich nodau, fel y gallwch chi ailymweld â nhw ar ddiwedd y cwrs.

Adnoddau sied offer: Pam gweddio?

Gellir dod o hyd i'r rhain yn prayercourse.org/toolshed

- "How to pray the Lord's Prayer"- Sut i Weddio Gweddi'r Arglwydd
- "How to have a quiet time" - Sut i Gael Amser Tawel
- "How to pray the Examen" - Sut i Weddio'r "Examen"